The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheolau 13 ac 16**

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (Cyfeirnod yr achos: EN010137)**

**Hysbysiad Gwrandawiadau ac Archwiliad Safle gyda Chwmni**

**Gwrandawiadau**

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad Mater Penodol 3: Materion Amgylcheddol** | **Dydd Mercher 16 Hydref 2024**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 9:30yb**<br>Seddau ar gael yn y lleoliad o 9:00yb a Chynhadledd Trefniadau Rhithwir o 9:00yb | **Gwesty'r St George's, Y Promenâd, Llandudno, LL30 2LG**<br>ac<br>**Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** |
| **Gwrandawiad Caffael Gorfodol 1 (CAH1)** | **Dydd Iau 17 Hydref a dydd Gwener 18 Hydref 2024**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 9:30yb**<br>Seddau ar gael yn y lleoliad o 9:00yb a Chynhadledd Trefniadau Rhithwir o 9:00yb | **Gwesty'r St George's, Y Promenâd, Llandudno, LL30 2LG**<br>ac<br>**Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** |
| **Gwrandawiad Mater Penodol 4: Materion Alltraeth** | **Dydd Mercher 23 Hydref 2024**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 9:30yb**<br>Cynhadledd Trefniadau Rhithwir o 9:00yb | **Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** |

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad Mater Penodol 5: Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft** | **Dydd Iau 24 Hydref 2024**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 9:30yb**<br>Cynhadledd Trefniadau Rhithwir o 9:00yb | **Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** |

**Cymryd rhan yn y Gwrandawiadau**

Rhaid i chi gofrestru drwy e-bostio blwch e-bost y prosiect erbyn **dydd Llun 7 Hydref 2024**, os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y gwrandawiadau. Rhaid i unrhyw gais i gymryd rhan yn y gwrandawiadau gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- enw a rhif cyfeirnod unigryw (a geir ar frig eich llythyr neu e-bost oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio);
- cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt;
- enw a rhif cyfeirnod unigryw unrhyw berson/sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol);
- y materion yr hoffech siarad yn eu cylch a rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud;
- cadarnhad a fyddwch yn cymryd rhan yn rhithwir neu'n bersonol (ISH3 a CAH1 yn unig);
- cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad (gyda rhif paragraff/tudalen lle bo'n briodol) unrhyw ddogfennau yr hoffech gyfeirio atynt; a
- unrhyw ofynion arbennig sydd gennych (ee mynediad i'r anabl neu ddolen glyw).

**Gwrandawiadau Cyfunol**

Bydd ISH3 a CAH1 yn cael eu cynnal fel digwyddiadau cyfunol. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cynnal fel digwyddiadau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams yn ogystal â digwyddiadau 'yn bersonol'.

**Gwrandawiadau Rhithwir**

Bydd ISH4 ac ISH5 yn cael eu cynnal fel digwyddiadau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Bydd partïon sydd wedi cofrestru i fynychu'r gwrandawiad yn derbyn e-bost yn fuan cyn y gwrandawiad yn cynnwys dolen ymuno, rhif ffôn a chyfarwyddiadau i alluogi cyfranogiad rhithwir. Ymunwch â'r Gynhadledd Trefniadau yn brydlon. Bydd y Tîm Achos yn eich derbyn o'r lobi rithwir ac yn cofrestru eich presenoldeb. Mae'r Gynhadledd Trefniadau yn caniatáu i weithdrefnau gael eu hesbonio a bydd yn galluogi'r gwrandawiadau i ddechrau'n brydlon.

I'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan ond nad oes ganddynt fynediad i Microsoft Teams, bydd yr Ymgeisydd yn darparu trefniant amgen er mwyn i chi ymuno â'r gwrandawiad. Cysylltwch â'r Tîm Achos a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth.

**Arsylwi ar y Gwrandawiadau**

Bydd pob digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd dolen ar gyfer gwylio'r llif byw yn cael ei bostio ar [dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol] yn nes at ddyddiad y gwrandawiad. Felly gall IPs ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawiad weld a gwrando ar y gwrandawiad gan ddefnyddio'r llif byw, neu weld a gwrando ar y recordiad, ar ôl iddo ddod i ben.

Fel arall, gallwch fynychu'r gwrandawiad personol yn y lleoliad (ISH3 a CAH1 yn unig) i arsylwi'r gweithrediadau; fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o seddi yn y lleoliad, gofynnwn i chi gofrestru eich presenoldeb i arsylwi yn unig erbyn dydd Llun 7 Hydref 2024 drwy e-bostio blwch e-bost y prosiect.

**Agendâu Gwrandawiad**

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn anelu at gyhoeddi agenda ddrafft manwl ar wefan y prosiect erbyn dydd Gwener 4 Hydref 2024 fan bellaf. Fodd bynnag, er mwyn bod o gymorth i bartïon, mae'r ExA wedi nodi amlinelliad bras o'r materion y mae'n ystyried a fydd yn cael eu harchwilio yn ISH3 ac ISH4. Bydd pob gwrandawiad yn cynnwys archwiliad o gyflwyniadau hyd at ac yn cynnwys D3. Er y disgwylir sylwadau ysgrifenedig ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA yn D4 (4 Tachwedd 2024), gall yr ExA ofyn i bartïon ymateb i gyflwyniadau D3 yn y gwrandawiad.

**ISH3: Materion Amgylcheddol**

Prif ddiben ISH3 yw cynnal archwiliad o faterion amgylcheddol amrywiol. Yn benodol, adolygu ystyriaethau effaith amgylcheddol, gan gynnwys materion sy'n codi o'r dogfennau cais a sylwadau yn ymwneud â:

- Effeithiau, gan gynnwys effeithiau cronnol, yn deillio o adeiladu a gweithredu'r Is-orsaf Ar y Tir arfaethedig
- Tirwedd, morlun ac effeithiau gweledol

**ISH4: Materion Alltraeth**

Prif ddiben ISH4 yw cynnal archwiliad o faterion amgylcheddol alltraeth amrywiol. Yn benodol, adolygu ystyriaethau effaith amgylcheddol, gan gynnwys materion sy'n codi o'r dogfennau cais a sylwadau yn ymwneud â:

- Llongau a mordwyo
- Seilwaith a gweithgareddau eraill alltraeth
- Buddiannau hedfan ac amddiffyn sifil a milwrol
- Ecoleg alltraeth
- Pysgodfeydd masnachol

**Gwybodaeth Gyffredinol**

Mae canllawiau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn darparu mai mater i'r Awdurdod Archwilio yw archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynau uniongyrchol o bersonau sy'n cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawiadau.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal y gwrandawiad yn y fath fodd fel na fydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn arwain y gwaith o holi'r partïon sy'n cyflwyno sylwadau llafar ac yn archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth. Fel arfer nid oes unrhyw bartïon eraill yn croesholi tystion, er bod gan yr Awdurdod Archwilio'r pŵer i ganiatáu hyn dan rai amgylchiadau.

Daw'r gwrandawiad i ben pan fydd yr Awdurdod Archwilio o'r farn bod yr holl faterion wedi'u cynnwys a bod yr holl gyfranogwyr wedi cael cyfle i wneud eu sylwadau. Fel canllaw, nod yr ExA yw cau'r gwrandawiad erbyn tua 5yp. Os oes materion ychwanegol i'w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig.

Byddai'r Awdurdod Archwilio yn argymell i unrhyw bartïon sy'n newydd i'r broses ac sy'n dymuno dysgu mwy am y cefndir a'r gweithdrefnau mewn gwrandawiadau i ddarllen Nodyn Cyngor 8.5 yr Arolygiaeth Gynllunio, Yr Archwiliad: gwrandawiadau ac archwiliadau safle.

**Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI)**

| ASI | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Archwiliad Safle gyda Chwmni 1** | **Dydd Mawrth 15 Hydref**<br>**Amser cychwyn: 9:30yb** | Man cyfarfod: **Tides Café Bistro, Beach House Road, Abergele, LL22 8EY** |

Gofynnwyd i Bartïon â Buddiant sy'n dymuno mynychu'r Arolygiad o'r Safle gyda Chwmni (ASI) hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn Dyddiad Cau 1.

Mae'r capasiti ar y bws mini a ddefnyddir ar gyfer yr ASI yn gyfyngedig iawn. Rhaid rhoi presenoldeb blaenoriaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio, yr Ymgeisydd, awdurdodau lleol a Phartïon Statudol perthnasol. Bydd Tîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio yn cysylltu ag unrhyw Bartïon eraill â Buddiant a fynegodd ddymuniad i fynychu'r ASI am ei hyd i drafod yr opsiwn o gwrdd â ni mewn lleoliadau perthnasol yn y deithlen. Mae rhagor o fanylion am yr ASI wedi'u cynnwys isod.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk

Cyhoeddwyd ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 16 Medi 2024

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd)**

**EN010137 - Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona**

**Teithlen Archwiliad Safle gyda Chwmni – 15 Hydref 2024**

Mae'r deithlen ar gyfer yr ymweliad safle gyda chwmni i'w gweld isod.

Sylwch **nad yw** arolygiad yr Awdurdod Archwilio (ExA) o safleoedd yn gyfle i ddarparu unrhyw sylwadau llafar ar y prosiect neu drafod tystiolaeth. Mae'n gyfle i'r ExA edrych ar y nodweddion ffisegol sydd i'w gweld ar, neu o'r safleoedd. Gall yr ExA wahodd cyfranogwyr i nodi nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.

**Ymuno â'r ymweliad safle**

Bydd yr ymweliad safle yn dechrau am 09:00 yn Tides Café Bistro, Ffordd Beach House, Abergele, LL22 8EY. Gofynnir i gyfranogwyr ymgynnull yn brydlon gan na fydd yr ExA yn aros am bartïon nad ydynt yn bresennol ar yr amser cychwyn.

Er mwyn sicrhau bod arolygiad yr ExA yn rhedeg yn esmwyth, efallai y bydd y rhai sy'n bresennol yn dymuno darparu manylion cyswllt ar gyfer y diwrnod, dweud wrth y Tîm Achos os oes unrhyw newidiadau o ran presenoldeb, a sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwybodol o unrhyw ofynion mynediad arbennig.

Cadarnhewch eich presenoldeb trwy e-bostio'r Tîm Achos yn monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk neu drwy ffonio Jake Stephens (Rheolwr Achos) ar 07884 925 827 erbyn **Dyddiad Cau 3, Dydd Llun 30 Medi 2024**.

**Dillad**

Argymhellir bod mynychwyr yn gwisgo esgidiau cryfion priodol a dillad addas i'r tywydd. Bydd yr Ymgeisydd yn darparu hetiau caled, siacedi gweledd uchel, sbectol diogelwch a menig, os oes angen.

**Safleoedd ar dir preifat**

Ceir mynediad i dir preifat bob amser gyda chaniatâd y person sy'n ei reoli; gall deiliaid tai, meddianwyr a thirfeddianwyr wrthod caniatáu i rai pobl sydd gyda'r ExA fynd ar eu tir. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r rhan honno o'r arolygiad ai peidio a gall ofyn i'r rhai y gwrthodwyd mynediad iddynt aros y tu allan.

**Lluniaeth**

Sylwch na fydd lluniaeth yn cael ei ddarparu.

**Cansladau**

Sylwch os gwelwch yn dda, os bydd yr Archwiliad Safle gyda Chwmni yn cael ei ganslo, sy'n annhebygol o gael ei ganslo, byddwn yn ceisio cysylltu â'r rhai sy'n bresennol ymlaen llaw, ond gofynnwn i chi edrych yn rheolaidd ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio sydd i'w gweld yma:
https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-mona/?ipcsection=overview

**Teithlen fanwl ar gyfer Archwiliad Safle gyda Chwmni**

| **Lleoliad** | **Man Stopio** | **Gwaith Rhif.** | **Amser** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Tides Café Bistro, Ffordd Beach House, Abergele, LL22 8EY | N/A | 09:00 | Rhaid i fynychwyr gyrraedd y maes parcio erbyn 09:00yb i dderbyn briff diogelwch gorfodol gan yr Ymgeisydd a sylwadau rhagarweiniol gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Awdurdod Archwilio. |
| 2 | **Compownd Adeiladu Dros Dro a Bae Cyd Drosglwyddo (TJB)**<br><br>Ffordd Abergele (A547) | Gwaith Rhif 10 | 09:30 | Cyfarfod wrth y fynedfa i'r cae oddi ar Ffordd Abergele.<br><br>I weld y TJB a lleoliad y lanfa. |
| 3 | **Coridor Ceblau ac Oddi ar y Llwybr Ffordd Haul yn Nant Fawr/ Nant Ganol**<br><br>Ffordd Nentydd | Gwaith Rhif 12 (rhan) ac<br>Gwaith Rhif 12a (rhan) | 10:00 | Gweld y ffordd gludo yn unol â chais yr ExA yn ystod Gwrandawiad Mater Penodol 2.<br><br>Mae lle parcio ar gael wrth borth y cae.<br><br>Gofynnir i unrhyw fynychwyr gymryd rhagofalon ychwanegol wrth barcio a theithio i'r lleoliad hwn oherwydd cyfluniad ffyrdd peryglus yn yr ardal hon. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **B5381 ar Groesffordd Penrefail**<br><br>B5381 / A548 | Gwaith Rhif 12 ac Gwaith Rhif 13 | 10:45 | Mae lle parcio ar gael yn y gilfan oddi ar y B5381.<br><br>Fel y gofynnwyd gan y tirfeddiannwr yn ei gyflwyniad ysgrifenedig (REP3-115). |
| 5 | **Compownd Adeiladu Dros Dro (TCC3)**<br><br>A548 | Gwaith Rhif 13 ac Gwaith Rhif 14 | 11:15 | Mae lle parcio ar gael wrth fynedfa'r cae oddi ar yr A548.<br><br>Yn unol â chais y tirfeddiannwr yn ei gyflwyniad ysgrifenedig (PDA -053). |
| 6 | **Compownd Adeiladu Dros Dro (TCC4)**<br><br>B5381 / Ffordd Glascoed | Gwaith Rhif 16 | 12:00 | Cyfarfod wrth fynedfa'r cae 200m i'r dwyrain o Sarn Rug, San Siôr.<br><br>Mae lle parcio ar gael yn y gilfan ar hyd y B5381.<br><br>Gofynnir i unrhyw fynychwyr gymryd rhagofalon ychwanegol wrth barcio a theithio i'r lleoliad hwn oherwydd cyfluniad ffyrdd peryglus yn yr ardal hon. |
| 7 | **Coridor Ceblau ym Mryn Hen**<br><br>Groesfford Marli, LL22 9ED | Gwaith Rhif 20 | 12:45 | Cyfarfod ym Mryn Hen a cherdded i'r coridor ceblau.<br><br>Yn unol â chais yr Awdurdod Archwilio. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Egwyl cinio<br>Costa Coffee/ SPAR, Ffordd Rhuddlan, Bodelwyddan, Y Rhyl LL18 5WG | N/A | 13:30 | Costa Coffee/ SPAR, Ffordd Rhuddlan, Bodelwyddan, Y Rhyl LL18 5WG |
| 9 | **Safle Is-orsaf ar y Tir**<br><br>Tir i'r de o Ffordd Glascoed, Llanelwy | Gwaith Rhif 21<br>Gwaith Rhif 22<br>Gwaith Rhif 22a<br>Gwaith Rhif 23<br>Gwaith Rhif 24<br>Gwaith Rhif 31<br>Gwaith Rhif 32<br>Gwaith Rhif 33<br>Gwaith Rhif 34 ac<br>Gwaith Rhif 35 | 14:30 | Cyfarfod ar y trac fferm i gyfeiriad Tan-y-Bryn.<br><br>Mae lle parcio ar gael ar hyd y trac concrit gyferbyn â Tyn y Ffordd Fawr, Cefn.<br><br>I weld lleoliad safle'r is-orsaf. |
| 10 | **Safle Is-orsaf ar y Tir**<br><br>Tir i'r de o Ffordd Glascoed, Llanelwy | Gwaith Rhif 27<br>Gwaith Rhif 28 ac<br>Gwaith Rhif 30 | 16:00 | Parcio yn Is-orsaf Bodelwyddan y Grid Cenedlaethol.<br><br>I weld y mynediad parhaol a dros dro. |
| 11 | **Pwynt Cyswllt Grid Cenedlaethol**<br><br>Tir i'r de o barc busnes Llanelwy | Gwaith Rhif 25 ac<br>Gwaith Rhif 26 | 16:30 | I weld lleoliad pwynt Cysylltiad y Grid Cenedlaethol. |
| 12 | **Tyddyn Meredydd**<br><br>Cefn, St Asaph | N/A | 17:00 | Ymweliad yn unol â chais perchnogion yr eiddo (RR-038).<br><br>Parcio yn yr eiddo. |
| 13 | Casgliad y daith archwiliad safle | N/A | 17:30 | |

Yr eiddoch yn gywir

*Caroline Jones*

**Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.